



Siop Gymunedol Cilcain

RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR) RHYBUDD PREIFATRWYDD

Pwy ydyn ni

Mae Siop Gymunedol Cilcain Gyfyngedig yn Gymdeithas Budd Cymunedol (y cyfeirir ati fel "y Gymdeithas" yn y ddogfen hon) sydd wedi'i chofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Mae Pwyllgor Rheoli'r Gymdeithas yn gweithredu fel rheolwr data'r sefydliad ar ddibenion y GDPR. Gall aelodau unigol o'r Pwyllgor weithredu fel proseswyr data, yn enwedig y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd.

Pam rydyn ni'n cadw data personol a'n sail gyfreithiol dros wneud hynny

Mae'r Gymdeithas yn cadw ac yn defnyddio data personol er mwyn rhedeg y Gymdeithas yn effeithlon ac i alluogi ein haelodau, a'r rhai nad ydynt yn aelodau, i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Gymdeithas.

I wneud hyn mae angen i aelodau'r Pwyllgor ac eraill sy'n ymwneud â threfniadaeth y Gymdeithas o bryd i'w gilydd wybod pwy yw ein haelodau, a'r rhai nad ydyn nhw'n aelodau, a gallu cyfathrebu â nhw. Felly mae'r Gymdeithas yn mabwysiadu sail gyfreithiol 'Budd Cyfreithlon' i gyfiawnhau dal a defnyddio'ch data personol. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ei bod er budd cyfreithlon y Gymdeithas i gynnal y data hwn, ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny ac na ellir cyflawni'r dibenion y defnyddir y data ar eu cyfer mewn unrhyw ffordd arall, llai ymwithiol.

Mae'n ofyniad cyfreithlon i gadw Rhestr o Aelodau yn ôl rheolau y Gymdeithas ac anghenion yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Beth rydyn ni'n ei gadw a beth rydyn ni'n ei wneud ag ef

Mae'r Gymdeithas yn storio ac yn defnyddio'ch manylion cyswllt fel y darperir gennych chi. Y manylion hynny yw:-

- Eich enw
- Cyfeiriad (a chyfeiriad arall os oes angen)
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad E-bost
- Maent yn berthnasol i aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau
- Bydd y data a gedwir ar gyfer aelodau hefyd yn cynnwys cofnod o'ch cyfranddaliadau yn y Gymdeithas ac unrhyw fenthyciadau, rhoddion os yw'n berthnasol a'ch dull talu. Nid ydym yn cadw unrhyw fanylion banc.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth i'ch hysbysu am weithgareddau'r Gymdeithas a phethau eraill a allai fod o ddiddordeb i chi ac i anfon cylchlythyrau a gwybodaeth aelodaeth atoch.

Cedwir y wybodaeth yn electronig ar gyfrifiaduron personol ac ar ffurf papur yn ôl yr angen. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod eich data yn ddiogel, gan gynnwys pasio dogfennau perthnasol. Mae'r data sy'n cael ei gadw gan yr Ysgrifennydd sy'n gyfrifol am gadw'r Gofrestr Aelodaeth yn cadw data holl aelodau'r Gymdeithas. Mae manylion aelodau unigol ar gael i aelodau eraill y Pwyllgor ac aelodau eraill sy'n ymwneud â threfnu gweithgareddau yn ôl yr angen. Gall aelodau'r Pwyllgor ddal manylion y rhai nad ydynt yn aelodau yn yr un modd (ee pobl / gwirfoddolwyr nad ydynt yn aelodau ond sydd wedi cydsynio i dderbyn gwybodaeth am y Gymdeithas). Gall trefnwyr is-bwyllgorau ddal manylion cyswllt pawb yn eu grwpiau.

Gyda phwy rydyn ni'n ei rannu

Nid ydym ac ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw un y tu allan i'r Gymdeithas ac eithrio lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny. Ni fydd eich data yn cael ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas arall nag yr ydych wedi cydsynio ar ei gyfer.

Mae'r Gofrestr Aelodau lawn gyda'r holl fanylion cyswllt yn cael ei chadw yn ein cyfeiriad cofrestredig.

Pa mor hir rydyn ni'n ei gadw

Rydym yn cadw y gwybodaeth trwy gydol eich aelodaeth o'r Gymdeithas.

Bydd gwybodaeth y rhai nad yw'n aelod yn cael ei cadw trwy gydol y caniatâd ac yn cael ei dileu yn yr un modd ag ar gyfer aelodau.

Os byddwch yn ein hysbysu eich bod yn canslo eich aelodaeth bydd eich holl ddata yn cael ei ddileu o'r cofnod electronig cyn gynted â phosibl a beth bynnag o fewn 4 wythnos i ni dderbyn y wybodaeth honno.

Eich hawliau o dan y GDPR

Mae gennych hawl i:

- Gael gwybod am gasglu a defnyddio'ch data personol
- Gyrchu y data a gedwir (darperir copi o'ch data ar gais)
- Archwilio'r Gofrestr Aelodau yn unol â Rheolau'r Gymdeithas
DS Mae hyn yn berthnasol i Aelodau'r Gymdeithas yn unig
- Gael cywiro unrhyw wallau yn eich data
- Ofyn i'ch manylion gael eu dileu o'n cofnodion
- Ofyn i'r defnydd o'ch data personol gael ei gyfyngu

Mae gennych ddefnyddio hawl i wrthwynebu defnyddio'ch data personol ar unrhyw adeg.

Os ydych am arfer unrhyw un o'r hawliau a amlinellir uchod, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Gymdeithas (gweler ein gwefan am fanylion cyswllt, neu gofynnwch yn y Siop Gymunedol) neu E-bost

secretary@cilcaincommunityshop.co.uk

Siop Gymunedol Cilcain,
Neuadd y Pentref,
Y Sqwar,
Cilcain,
Sir y Fflint.
CH7 5NN

Rhif ffôn 01352 741354

Mae Siop Gymunedol Cyfyngedig Cilcain wedi ei restru fel Cymdeithas Budd Gymunedol tan y "Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014". Mae y Siop hefyd wedi ei rhestru gyda'r "Financial Conduct Authority, Mutuals Number 7755". Gwelir rheolau'r Gymdeithas a'r eu Gwefan.